**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Meirick Davies – Cysylltiad Personol – Eitemau 6 ac 8 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Glenn Swingler – Cysylltiad Personol – Eitemau 5 ac 8 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Rhys Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 8 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Dim materion brys wedi eu codi ac angen penderfyniad arnynt. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.* |
| **5** | STRATEGAETH ANABLEDDAU DYSGU GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo ymrwymiad Cyngor Sir Ddinbych yn y Strategaeth Anabledd Dysgu Rhanbarthol.* |
| **6** | GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2019/20 | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019/20 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad); ac*<br><br>*(b) Cynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £89.77 i'w weithredu o ddydd Llun 1 Ebrill 2019.* |
| **7** | ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2019/20 yn cael eu cefnogi a'u hargymell i'r Cyngor llawn.* |
| **8** | CYLLIDEB 2019/20 – CYNIGION TERFYNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2019/20;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) cefnogi'r cynigion a amlinellwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad sy'n cyd-fynd â'r cynigion a gyflwynwyd yn y gweithdy cyllideb i'r aelodau a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2019, ac felly'n eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn cwblhau cyllideb 2019/20;*<br><br>*(c) cymeradwyo'r arbedion sy'n dod i £223k wedi'u rhestru yn Atodiad 2 fel rhan o'r pecyn cyllideb;*<br><br>*(ch) argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog o 6.35% yn Nhreth y Cyngor, sy'n cydnabod pwysau cynyddol amrywiol, gan gynnwys cynnydd o ran costau ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion ac yn cefnogi'r dyraniad o £2.0m o gyllid ychwanegol ar draws y ddau wasanaeth, a*<br><br>*(d) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad hwn.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.* |
| **11** | RHOI MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR WAITH AR GYFER GWAHANOL WEITHGAREDDAU / SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo'r Brîff Prosiect yn amgaeedig i'r adroddiad er mwyn gallu symud Achos Busnes llawn y Prosiect ymlaen, a*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Lesiant i ystyriaeth (Atodiad B o'r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|